**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS 2016**

**DEDDF Y PRIFFYRDD 1980**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Llwybr Troed 48/11 Godre'r Garth Llanddewi Brefi**

Gwneir y gorchymyn hwn gan Gyngor Sir Ceredigion ("yr Awdurdod") yn unol ag adran 119, Deddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") gan ei fod o'r farn y byddai'n fuddiol i berchennog y tir fod y llwybr troed a ddisgrifir ym mharagraff 1 i'r Gorchymyn hwn gael ei wyro.

Mae'r perchennog tir wedi cytuno i dalu unrhyw gostau sy'n ofynnol wrth sicrhau bod trywydd newydd y llwybr yn addas at ddefnydd y cyhoedd.

Ymgynghorwyd â Chyngor Cymuned Llanddewi Brefi, fel sy'n ofynnol dan adran 120(2), Deddf 1980.

**TRWY'R GORCHYMYN HWN**

1. Bydd y llwybr cyhoeddus dros dir ger Godre'r Garth, Llanddewi Brefi, ac a nodir â llinell drwchus barhaus ar y map sydd gyda'r Gorchymyn hwn, ac fe'i disgrifiwyd yn Rhan 1 o Atodlen y Gorchymyn, yn dod i ben 49 diwrnod ar ôl dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. Ymhen 42 diwrnod wedi dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn bydd llwybr troed cyhoeddus dros dir ger Godre'r Garth, Llanddewi Brefi, fel y'i disgrifir yn rhan 2 o'r Atodlen, ac fe'i nodir â llinell drwchus doredig ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

3. Bydd hawliau'r cyhoedd o dan y Gorchymyn hwn yn amodol ar y cyfyngiadau a'r amodau a nodwyd yn Rhan 3 yr Atodlen.

## ATODLEN

## RHAN 1

DISGRIFIAD O DRYWYDD Y LLWYBR PRESENNOL

O bwynt A SN6440:5555 bydd y llwybr yn parhau i'r gogledd-orllewin ar draws y cae i gât ymhellach ar bwynt B SN6438:5597. Mae hi'n parhau i gât ar bwynt C SN6437:5562 lle y mae'n croesi'r trac fynediad i Godre'r Garth. Mae hi'n basio trwy gât ymhellach i mewn i cae syth i'r ddwyrain y ty. Mae hi'n parhau mewn cyfeiriad gogledd-dwyreinol gan ddilyn llinell y ffens I bwynt E SN6438:5580.

Pellter o oddeutu 270 metr a lled heb ei ddiffinio yn y Ddatganiad Diffiniol.

## RHAN 2

DISGRIFIAD O DRYWYDD Y LLWYBR NEWYDD

Gan ddechrau o gât ar bwynt A SN6440:5555 mae'r llwybr yn parhau i'r gogledd-dwyrain ar hyd llinell y ffens i gat gate ar bwynt G SN6445:5559. Mae'n troi 90 gradd 90 ac mae'n ddilyn y trac fynediad i Godre'r Garth am bellter o amgylch 50 metr i gât ar bwynt F SN6443:5566. Mae hi'n mynd mewn i'r cae yn arwain mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol ar draws y cae i ail-ymuno a'r llinell diffiniol ar bwynt E SN6438:5580.

Pellter o oddeutu 275 metr. Lled o 2 metr.

## RHAN 3

CYFYNGIADAU AC AMODAU

Gât ar bwynt A SN6440:5555 (BS5709 2006)
Gât ar bwynt G SN6445:5559 (BS5709 2006)
Gât ar bwynt F SN6443:5566 (BS5709 2006)

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR CEREDIGION**

Ar yr 2ail o fi Mawrth 2016 yng ngŵydd

CADEIRYDD

Cyfarwyddwr Strategol Cymunedau Cynaliadwy